**Julie James AC/AM**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

**Llythyr at aelwydydd a effeithiwyd arnynt gan lifogydd – Coronafeirws**

Mae'r coronafeirws yn cael effaith ar fywydau pob un ohonom. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu i wneud yn siŵr bod cymorth a chefnogaeth ar gael ar draws Cymru pan fyddwch ei angen.

Gwyddom mai'r peth pwysicaf y gallwn ni ei wneud yn y frwydr yn erbyn coronafeirws yw aros gartref er mwyn diogelu'r GIG ac amddiffyn bywydau.

Yn ddiweddar, fe wnes i ryddhau £10 miliwn o gyllid i awdurdodau lleol i gynyddu ei capasiti i helpu pobl sydd heb lety addas, yn ddigartref *neu sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref.* Bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol i sicrhau bod pobl mewn llety lle bydd modd iddynt ddilyn canllawiau iechyd y cyhoedd ynglŷn â chadw pellter cymdeithasol, hylendid ac ynysu os oes angen.

Os ydych yn bryderus ynghylch eich trefniadau presennol o ran tai, cysylltwch â thîm tai eich awdurdod lleol a fydd yn gallu rhoi cyngor a chymorth ichi.

Cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru fod pecyn mesurau o £10 miliwn ar gael i bob aelwyd sydd wedi'u heffeithio gan lifogydd yn ystafelloedd byw mewnol eu prif gartref o ganlyniad i stormydd mis Chwefror, ac efallai gall pob aelwyd fod yn gymwys i hawlio £500 yr un. Roedd £500 ychwanegol hefyd ar gael i bob aelwyd oedd heb yswiriant neu lle nad oedd yswiriant yn talu ar gyfer llifogydd. Os na wnaethoch chi wirio a oedd gennych chi hawl i gael cymorth, mae amser ar gael o hyd i chi gysylltu â'ch awdurdod lleol, a fydd yn gwneud hawliad ar eich rhan. Mae'r manylion cyswllt ar gael yma
https://llyw.cymru/cymorth-ariannol-i-gartrefi-achos-llifogydd-mis-chwefror

Os nad ydych wedi hawlio o'r Gronfa Cymorth Llifogydd eto, neu os ydych yn dymuno cael cymorth ychwanegol drwy'r gronfa Gymorth Dewisol, gellir cael rhagor o wybodaeth yn https://llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-daf

Mae ein hymrwymiad i fuddsoddi mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd yn ddiwyro. Mae cyllid ychwanegol ar gyfer amddiffynfeydd newydd rhag llifogydd, ac i drwsio amddiffynfeydd a ddifrodwyd yn ystod stormydd mis Chwefror wedi'i wneud ar gael i'r holl gynghorau ac i Gyfoeth Naturiol Cymru. Rydym wedi ymrwymo i gwblhau'r gwaith hwn er gwaethaf yr argyfwng presennol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn ag effaith coronafeirws arnoch chi, mae canllawiau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn: https://llyw.cymru/coronafeirws

Mae gwybodaeth hefyd ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru sy’n cael ei ddiweddaru bob dydd am 2pm https://icc.gig.cymru/

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno’n dda ichi a’ch annog i barhau i ddilyn y cyngor i ‘aros gartref’.

Yn gywir

**Julie James AC/AM**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government